



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Sut i gwblhau Llyfr Log Electronig

Canllaw cyflym ar y prif negeseuon y mae'n rhaid eu hanfon wrth
ddefnyddio e-log

1

Neges ymadael (DEP)

- Rhaid ei hanfon bob tro rydych yn gadael y porthladd, hyd yn oes os nad ydych yn bysgota
- Rhaid iddi ddatgan yr holl gêr a'r dalfeydd sydd ar y cwch ar yr adeg gadael
- Rhaid iddi ddangos y wybodaeth gywir ar gyfer y meistr ar y daith
- Rhaid iddi ddatgan y gweithgaredd arfaethedig – pysgota/mordeithio/gwyddonol

2

Adroddiad Gweithgareddau Pysgota (FAR)

- Rhaid ei gyflwyno bob dydd cyn 23:59 ar bob taith bysgota – hyd yn oed os nad oes dalfa i'w datgan
- Rhaid iddo ddatgan pob dalfa ar y cwch dros 50kg pwysau byw
- Rhaid iddo gofnodi'r hyn sydd wedi'i daflu'n ôl i'r môr (wedi'i waredu)
- Rhaid iddo gofnodi pysgod rhy fach yn unol â'r rhwymedigaeth lanio

3

Diwedd Pysgota (EOF)

- Rhaid cyflwyno'r neges hon ar deithiau pysgota ar ôl i'r holl Adroddiadau Gweithgareddau Pysgota gael eu hanfon
- Mae'r neges hon yn datgan na fydd unrhyw bysgota arall yn cael ei gynnal ar y daith hon

4

Hysbysu Ymlaen Llaw (PNO)

- Mae'r neges hon yn datgan y dyddiad a'r amser rydych yn bwriadu dychwelyd i'r porthladd
- Mae'r neges yn datgan maint y ddalfa ar y cwch a faint rydych yn bwriadu ei lanio
- RHAID ichi ddychwelyd i'r porthladd o fewn pedair awr i'r amser a roddir yn y neges hon fan bellaf

Nid oes rhaid i bob cwch anfon PNO

5

Dychwelyd i'r Porthladd (RTP)

- Rhaid cyflwyno'r neges hon bob tro mae cwch yn dychwelyd i'r porthladd – gan nodi'r dyddiad a'r amser y bydd yn dychwelyd
- Rhaid iddi ddatgan rheswm am ddychwelyd – glanio/cysgodi/atgyweirio
- I ganiatáu cyflwyno datganiad glanio, rhaid mai 'Glanio – LAN' yw'r rheswm am ddychwelyd

6

Datganiad Glanio (LAN)

- Rhaid cwblhau hwn ar gyfer pob taith lle mae dalfa'n cael ei glanio
- Caiff y meistr neu ei gynrychiolydd ei gwblhau
- Rhaid ei gyflwyno o fewn 24 awr i'r glanio
- Rhaid nodi rhywogaeth a maint pob dalfa sy'n cael ei glanio – hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu gwerthu

Negeseuon Eraill

Yn dibynnu ar sut a lle rydych yn pysgota, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol ichi gyflwyno negeseuon a gwybodaeth arall drwy eich e-log.

Er enghraifft, negeseuon 'Dalfa wrth Gyrraedd' a 'Dalfa wrth Arael' wrth fynd i mewn ac allan o barth ymdrech (fel Parth Adfer Lleden Chwithig). I gael rhagor o wybodaeth am y rhain, cysylltwch â Swyddfa Pysgodfeydd Aberdaugleddau ar **03000 253500** neu siaradwch â'ch Swyddog Gorfodi Morol Lleol.